
25/11/2026

Dull Rheoli Ansawdd

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae ansawdd yn cael ei ddiffinio gan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau fel defnyddio data addas a dulliau priodol i gynhyrchu ystadegau dibynadwy sy'n bodloni anghenion y defnyddwyr. Nid yw ansawdd wedi'i gyfyngu i'r allbynnau terfynol, ond yn hytrach mae'n rhan hanfodol o'r holl broses gynhyrchu.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut mae ansawdd yn cael ei reoli wrth gynhyrchu ystadegau o Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru. Mae'n amlinellu sut rydym wedi blaenoriaethu ansawdd drwy gydol y gwaith o ddatblygu arolygon, cynhyrchu ystadegau a chyfleu canlyniadau.

Datblygwyd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru drwy raglen helaeth o ymchwil, datblygu arolygon a chynnal cynlluniau peilot. Roedd canfyddiadau'r gwaith hwn yn sail i ddyluniad yr arolwg, cynnwys yr holiadur a dulliau casglu data cyn eu rhoi ar waith yn llawn. Mae adroddiadau sy'n dogfennu'r broses o ddatblygu a phrofi'r arolwg yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r arolwg, gan ddarparu gwybodaeth dryloyw o sut cafodd dulliau eu mireinio a sut cafodd penderfyniadau eu gwneud.

Mae ystyriaethau ansawdd yn rhan o ddyluniad yr arolwg. Arolwg i'w lenwi ar y we yn gyntaf yw Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ac mae'n defnyddio map rhyngweithiol arloesol wedi'i ymgorffori yn y dyddiadur teithio. Mae hyn yn galluogi ymatebwyr i gofnodi gwybodaeth fanwl am eu teithiau heb ormod o faich. Ochr yn ochr ag arolygon sy'n cael eu cwblhau ar y we, rhowch gyfle i bobl ymateb mewn cyfweliadau wyneb yn wyneb a dros y ffôn i sicrhau bod ymatebwyr yn gallu cwblhau'r arolwg yn y ffordd sydd orau ganddynt.

Mae'r sampl wedi'i chynllunio i gynhyrchu amcangyfrifon cadarn o agweddau ac ymddygiad teithio ledled Cymru ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae Canolbarth Cymru yn cael ei samplu'n anghymesur i gefnogi dadansoddiad rhanbarthol cadarn, ac mae'r arolwg yn cael ei bwysoli i sicrhau bod y canlyniadau'n cynrychioli poblogaeth Cymru.

Rydym yn cydnabod nad yw ansawdd yn sefydlog, ac mae'r arolwg yn parhau i ddatblygu'n raddol wrth i anghenion defnyddwyr a gofynion tystiolaeth newid. Cyn cyflwyno newidiadau, rydym yn ystyried a fyddant yn gwella gallu'r arolwg i fodloni anghenion defnyddwyr a sut y gallent effeithio ar ganlyniadau presennol. Gallwn brofi cwestiynau newydd gyda defnyddwyr i wneud yn siŵr eu bod yn hawdd i'w hateb, bod yr arolwg yn llifo'n dda, ac y gallwn gymharu canlyniadau dros amser.

Mae Trafnidiaeth Cymru a chontractwr ein harolwg yn rhannu'r cyfrifoldeb dros gynnal yr arolwg. Drwy gydol y broses o gasglu data, rydym yn monitro cynnydd gwaith maes, cyfraddau ymateb a phroffil yr aelwydydd sy'n ymateb. Mae hyn yn ein galluogi i nodi ac ymateb i faterion a allai effeithio ar ansawdd data yn ystod y cyfnod casglu.

Mae'r gwaith o sicrhau ansawdd yn parhau ar ôl cwblhau'r gwaith o gasglu data. Mae data'n cael eu hadolygu gan ddefnyddio amrywiaeth o wiriadau i nodi gwerthoedd annisgwyl, anghysondebau a phroblemau ansawdd posibl. Mae allbynnau ystadegol yn cael eu hadolygu gan ddadansoddwyr eraill cyn eu cyhoeddi. Mae'r gwiriadau'n cynnwys adolygu cyfrifiadau, asesu cysondeb ar draws allbynnau a, lle mae dulliau wedi newid, cynnal rhediadau cyfochrog o

ddulliau presennol a diwygiedig. Mae dulliau, penderfyniadau dadansoddol a materion ansawdd yn cael eu cofnodi drwy gydol y broses.

Rydym yn rhoi blaenoriaeth uchel i ansawdd yr arolwg a'r ystadegau a gyhoeddir. Pan fydd pryderon ansawdd yn cael eu nodi, efallai y bydd gwaith ymchwilio a sicrhau ansawdd ychwanegol yn cael ei wneud cyn cyhoeddi'r canlyniadau. Dangoswyd hyn pan fu oedi cyn cyhoeddi'r canlyniadau rhagarweiniol chwe mis ar ôl nodi pryderon ansawdd yn y set ddata. Roedd yr amser ychwanegol yn rhoi cyfle i gynnal a chwblhau rhagor o waith archwilio a sicrhau ansawdd cyn cyhoeddi.

Mae gwybodaeth am ddulliau arolygu, ansawdd data a chyfyngiadau yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â chanlyniadau Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys Adroddiad Technegol ac Adroddiad Ansawdd, sy'n egluro sut mae'r ystadegau wedi cael eu cynhyrchu ac yn disgrifio cryfderau a chyfyngiadau'r arolwg. Mae mesurau ansicrwydd, gan gynnwys cyfyngau hyder, yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr ag amcangyfrifon yr arolwg mewn allbynnau ystadegol a thablau data.

Ar hyn o bryd, mae Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn cael ei gyhoeddi fel ystadegau sy'n cael eu datblygu, gan adlewyrchu ein gwaith parhaus i fireinio a gwella'r arolwg. Rydym yn agored am newidiadau i'r arolwg, y dulliau rydym yn ymdrin â'r data ac ystadegau cyhoeddedig, ac yn egluro effaith newidiadau methodolegol, diwygiadau a chywiriadau. Mae hyn yn helpu defnyddwyr i ddeall sut mae'r arolwg yn datblygu'n raddol a sut gall newidiadau effeithio ar y ffordd y dehonglir y canlyniadau.